

Papur Trefniadau Gweithredu

Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon Cymru 2014 – 2020

Trefniadau Gweithredu

Bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn gweithio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerfyrddin a Chyffordd Llandudno ac yn swyddfeydd Cynulliad Rhanbarthol De Iwerddon yn Waterford.

Bydd Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn cynnal galwad agored am brosiectau.

Bydd lefel yr ymrwymiad a'r gwariant ym mhob echel blaenoriaeth yn cael ei monitro'n ofalus drwy gydol cyfnod y rhaglen. Ar adegau penodol yn ystod cyfnod y rhaglen, gellir penderfynu gohirio echel blaenoriaeth os bydd digon o weithrediadau'n cael eu cymeradwyo i gyflawni'r ymrwymiad. Yn yr achosion hyn, gellid rhoi gweithrediadau ar restr wrth gefn er mwyn iddynt fanteisio ar arian y mae gweithrediadau sydd wedi'u cwblhau yn ei ddychwelyd i'r rhaglen.

O ganlyniad uniongyrchol i adborth gan fuddiolwyr, gwerthusiadau o'r gwersi a ddysgwyd a thrafodaethau cyffredinol mewn digwyddiadau ymgynghori, addaswyd y broses werthuso ar gyfer rhaglen 2014-20.

Bydd cynigion am gyllid yn mynd drwy broses werthuso tri cham, fel yr amlinellir isod.

Rhag-gynllunio

Cysylltwch â ni drwy'r wefan neu drwy anfon e-bost at ein cyfeiriad Iwerddon Cymru (IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk)

Bydd eich manylion cyswllt yn cael eich anfon ymlaen at y swyddog gweithrediadau, a fydd yn cynnal trafodaethau cynnar gyda chi i drafod y posibilrwydd o fwrw ymlaen â'ch cynnig.

Gall buddiolwyr ddefnyddio Cynllun Rhwydweithio Cymru Iwerddon i gynorthwyo gyda'r costau sydd ynghlwm â threfnu partneriaethau ar gyfer cynnig. Dylech holi am fwy o wybodaeth gan eich swyddog gweithrediadau ynghylch defnyddio'r cynllun hwn.

Bydd cynigion addawol yn cael eu gwahodd i lenwi tabl rhesymeg er mwyn rhoi syniad i'r ddwy ochr o'r gweithgaredd, y cydweddiad strategol, y dangosyddion a'r canlyniadau rydych chi eisiau eu cyflawni, ynghyd ag amcangyfrif bras o'r pecyn ariannol.

Pan fydd y buddiolwr a'r swyddog gweithrediadau yn fodlon bod gwybodaeth ddigonol wedi'i chyflwyno, caiff y cynnig ei anfon ymlaen i'r Grŵp Technegol benderfynu arno.

Aelodau'r Grŵp Technegol fydd uwch-swyddogion o WEFO a Chynulliad Rhanbarthol De Iwerddon (SRA).

Opsiynau'r Grŵp Technegol:

- Derbyn i gam cyntaf y cynllunio busnes
- Cyngori i weithio gyda gweithrediad arall sydd eisiau cyflwyno gweithgaredd tebyg
- Cyngori i gryfhau'r cynnig – gan roi cyfarwyddyd clir
- Gwrthod/Tynnu'n ôl

Bydd holl benderfyniadau'r Grŵp Technegol yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen a Phwyllgor Llywio'r Rhaglen.

Porth 1 – Cam Cynllunio Busnes:

Bydd cynnig yn symud i'r cam nesaf, cynllunio busnes, dim ond os bydd y Grŵp Technegol yn cymeradwyo hynny.

Caiff sefydliadau eu gwahodd i gofrestru ar yr e-Borth er mwyn defnyddio WEFO Ar-lein, y plattfform ymdrin â chwsmeriaid ar gyfer y System Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad y Rhaglen (PPIMs). Dim ond y prif fuddiolwr fydd yn cael defnyddio PPIMs, ond caiff pob un o'r cyd-fuddiolwyr eu hadnabod a'u cysylltu â'r gweithrediad.

Caiff yr holl ddogfennau eu cyfnewid drwy WEFO Ar-lein.

Bydd y prif fuddiolwr yn cael ei wahodd i gwblhau a chyflwyno templed cynllun busnes yn gyfyngedig i dri maen prawf craidd – cydweddiad strategol (gan gynnwys meini prawf cydweithredu), darparu, a chyllid a chydymffurfio.

Rhwng y tri maen prawf, caiff pob agwedd ar y gweithrediad arfaethedig eu hasesu i ryw lefel o fanylder, gyda'r pwyslais ar gydweddiad strategol y cynnig gyda Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon Cymru. Caiff archwiliadau ariannol a chydymffurfio eu cynnal a chaiff cynlluniau darparu arfaethedig eu gwerthuso.

Byddwch yn cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer cwblhau cynllun busnes Cam 1 gyda'ch swyddog gweithrediadau.

Bydd cynllun busnes Cam 1 yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen benderfynu arno dim ond os yw'r prif fuddiolwr yn cytuno â hynny.

Mae tri opsiwn ar gael i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen wrth adolygu achosion busnes ym Mhorth 1:

- Cymeradwyo a derbyn i'r cam cynllunio manwl.

- Dychwelyd ar gyfer mwy o waith ym Mhorth 1 – bydd cyfarwyddyd clir yn cael ei roi oherwydd dylid gwrthod cynnig sydd angen ei ailysgrifennu’n helaeth.
- Gwrthod/rhoi ar restr wrth gefn/tynnu’n ôl.

Bydd y prif fuddiolwr yn cael gwybod am unrhyw benderfyniad drwy lythyr ffurfiol.

Cam Cynllun Busnes Manwl

Caiff gweithrediad sy’n cael ei gymeradwyo ym Mhorth 1 ei symud i’r cam cynllun busnes manwl a’i wahodd i gyflwyno tystiolaeth ar y chwe maen prawf sy’n weddill:

Dangosyddion a Chanlyniadau; Gwerth am Arian; Rheoli Prosiect; Trawsbynciol; Addasrwydd Buddsoddiad; Cynaliadwyedd Hirdymor.

Bydd y Swyddog Arweiniol a’r Prif Fuddiolwr yn trafod ac yn cytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ar gyfer penderfyniad cymeradwyo.

Mae modd cyflwyno tystiolaeth gam wrth gam i hwyluso asesu.

Bydd y swyddog gweithrediadau yn helpu’r prif fuddiolwr i gwblhau’r proffil darparu (gwariant/incwm/allbynnau/cerrig milltir allweddol/cylch hawlio/cylch archwilio/cyfarfodydd adolygu/casglu data) ar PPIMs.

Bydd cynllun busnes Cam 2 yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywio’r Rhaglen benderfynu arno dim ond os yw’r prif fuddiolwr yn cytuno â hynny.

Mae gan Bwyllgor Llywio’r Rhaglen dri opsiwn:

- Cymeradwyo.
- Dychwelyd ar gyfer mwy o waith – bydd cyfarwyddyd clir yn cael ei roi oherwydd dylid gwrthod gweithrediad sydd angen ei ailysgrifennu’n helaeth.
- Gwrthod/rhoi ar restr wrth gefn/tynnu’n ôl. (Annhebygol ar y cam hwn, ond mae hyn yn cael ei gynnwys ar gyfer sefyllfaoedd lle mae buddiolwr wedi tynnu’n ôl, lle collwyd cyllid etc.)

Y Broses Gymeradwyo

Bydd y prif fuddiolwr yn cael contract cymhorthdal y bydd angen ei lofnodi a’i ddychwelyd i’r Gyd-ysgrifenyddiaeth o fewn 20 diwrnod gwaith.

Cyd-drefnu – mae’r cam hwn yn caniatáu i weithredu sefydlu tîm, caffael a chwblhau gofynion cyfreithiol ynghylch trefniadau’r cyd-fuddiolwyr. Bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cytuno ar ddyddiad cychwyn y gweithgarwch, hyd y cyfnod cyd-drefnu a’r categorïau gwariant cyn cymeradwyo.

Os na fydd sefydliad yn llwyddo i gwblhau'r cam cyd-drefnu o fewn y cyfnod a ganiateir, caiff y penderfyniad cymeradwyo ei ddychwelyd i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ei adolygu.

Ar Ôl Cymeradwyo

Cynhelir cyfarfod cynefino o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo, a bydd disgwyl i bob partner fod yn bresennol. Bydd y cyfarfod yn cynnwys adolygiad o'r contract cymhorthdal, statws contractau'r buddiolwyr, targedau cyd-drefnu, cyflwyno gweithgaredd, dogfennau polisi, cadw dogfennau, manylion cyswllt, lefelau awdurdod, cyngor arbenigol gan CCT, RME, FAT (Cyllid), etc.

Ôl-ofal/Adolygiadau – bydd gweithrediadau cymeradwy yn cael eu monitro'n agos, gydag adolygiadau rheolaidd yn gysylltiedig â hawlio a/neu gerrig milltir allweddol bob tri neu chwe mis.

Bydd y prif fuddiolwr yn cyflwyno adroddiad cynnydd i'w drafod mewn cyfarfodydd adolygu.

Gwerthusiadau – bydd angen gwerthusiad canol tymor ar gyfer gweithrediadau o fwy na 3 blynedd, a bydd angen gwerthusiad terfynol ar gyfer pob gweithrediad. Mae fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu i fuddiolwyr ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.